

Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Cynllun Gweithredu ar Iechyd a Lles



Ein camau gweithredu i gyflawni Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol
2020-2024

www.arfordirpenfro.cymru



**Parc Cenedlaethol
Arfordir Penfro
Pembrokeshire Coast
National Park**

Cynllun Gweithredu ar Iechyd a Lles

Dylid darllen y cynllun gweithredu hwn ar y cyd â [Chynllun Rheoli Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 2020-2024](#). Mae'r cynllun yn tynnu sylw at y camau blaenoriaeth i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol sy'n ymwneud â iechyd a lles hyd at 2024. Bydd y cynllun yn cael ei adolygu bob blwyddyn.

Mae'r cynllun gweithredu yn cynnwys camau gweithredu y mae cyllid eisoes wedi'i gymeradwyo ar eu cyfer. Hefyd nodir camau gweithredu y byddai o bosibl angen adnoddau ar eu cyfer. Lle mae hyn yn wir, byddai unrhyw benderfyniad ynglŷn ag adnoddau yn cael ei wneud yn unol â gweithdrefnau safonol yr Awdurdod.

Ym mhob tabl, ategir y golofn statws gan sylwadau manylach ar y gweithgareddau a wnaed yn y flwyddyn ariannol gyfredol. Dylid edrych ar hyn ar y cyd â'r Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau cyfredol.

Cafodd y cynllun hwn ei ddrafftio gyda mewnbwn gan staff ar draws yr Awdurdod ac ymgynghorwyd â'r uwch reolwyr a'r arweinyddion tîm. Hefyd ymgynghorwyd â'r partneriaid canlynol: Cyngor Sir Penfro (CSP), Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), PLANED, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Gweithredu dros Iechyd Meddwl Gorllewin Cymru (WWAFMH), Fforwm Arfordirol Sir Benfro, Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro (PAVS), MIND, a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Mae'r cynllun gweithredu yn clustnodi gwaith y mae'r Awdurdod Parc Cenedlaethol yn bwriadu arwain arno. Fodd bynnag, mae cyflawni'r gwaith yn dibynnu ar gydweithio ag ystod o bartneriaid ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol.

Adran A: Maes Blaenoriaeth: Hyrwyddo a defnyddio'r Parc Cenedlaethol fel ased iechyd a lles.

Yn cyfrannu at bolisiâu'r Cynllun Rheoli a'u meysydd effaith cysylltiedig: L1: Gwarchod a gwella tirweddau a morweddau'r Parc Cenedlaethol; W1: Darparu a hyrwyddo cyfleoedd hamdden awyr agored cynaliadwy i bawb; W2: Darparu a hyrwyddo cyfleoedd dysgu sy'n ysbrydoli yn yr awyr agored a datblygiad personol i bawb; H2: Hyrwyddo'r Gymraeg a thafodieithoedd lleol, a dathlu diwylliant a chreadigrwydd sy'n gysylltiedig â'r dirwedd.

Yn cyfrannu at Amcanion Llesiant canlynol yr Awdurdod: Iechyd a Lles, Cymunedau, Ffyniant

Mae'r gweithgareddau hefyd yn cefnogi Cynllun Gweithredu yr Awdurdod *Ymateb i'r Argyfwng Newid Hinsawdd*, yn arbennig y gweithgareddau sy'n ymwneud â cherdded â chymorth.

1. Strategol – Cydweithredu ag eraill i hyrwyddo buddion iechyd y Parc					
Diben: Gwneud y mwyaf o fuddion iechyd a lles posibl yr 'asedau iechyd' yn y Parc Cenedlaethol a'r Awdurdod drwy gydweithredu â phartneriaid yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol a rhanddeiliaid eraill.					
Canlyniad: Lles corfforol a meddyliol pobl yn cael ei wella drwy gynyddu ymwybyddiaeth a mynediad at gyfleoedd iechyd a lles yn y Parc Cenedlaethol. Hwylusir hyn drwy rwydweithiau effeithiol, cyfleoedd cyd-gynhyrchu, rhannu adnoddau a phrosiectau ar y cyd.					
Gweithredu / Menter	Amserlen	Arweinydd	Adnoddau/Gweithio traws-timoedd	Statws	Gweithgaredd 2020/21
Ymgysylltu Strategol: Ymwneud ag Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddatblygu fframwaith strategol ar gyfer atebion cymdeithasol a gwyrdd ar gyfer iechyd.	Cyfnod cyfredol y Cynllun Rheoli (2020 – 2024).	Swyddog Polisi Iechyd a Thwristiaeth	Swyddog Polisi APCAP. Swyddogion Cyfarwyddyd a Darganfod perthnasol eraill APCAP. Swyddogion eraill APCC. Staff Iechyd Cyhoeddus Cymru. Swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru.	Parhaus	Llwyfan ar-lein (basecamp) a sefydlwyd i gynnal gweithgareddau ymgysylltu yn ystod y pandemig.
Partneriaeth Strategol: Ymwneud â Rhwydwaith Gwasanaeth Iechyd Seiliedig ar Natur Gorllewin Cymru.	Cyfnod cyfredol y Cynllun Rheoli (2020 – 2024).	Swyddog Polisi Iechyd a Thwristiaeth	Swyddog Polisi APCAP, Tîm Darganfod, Cyfarwyddwr Gweithredu Gorllewin Cymru dros Iechyd Meddwl.	Parhaus	Llwyfan ar-lein (basecamp) a sefydlwyd i gynnal gweithgareddau ymgysylltu yn ystod y pandemig.

					Cyfres o weithdai ar-lein a gynhaliwyd dros 2020 i lywio'r gwaith o ddatblygu'r rhwydwaith yn y dyfodol.
Gweithredu / Menter	Amserlen	Arweinydd	Adnoddau/Gweithio traws-timoedd	Statws	Gweithgaredd 2020/21
Partneriaeth Strategol: Ymwneud â Phartneriaeth Dewch i Gerdded Sir Benfro.	Cyfnod cyfredol y Cynllun Rheoli (2020 – 2024).	Swyddog Polisi Iechyd a Thwristiaeth	Swyddog Polisi APCAP Swyddog Dewch i Gerdded Tîm Darganfod. Mynediad APCAP. Aelodau'r bartneriaeth Cynlluniau Llesiant Lleol.	Wedi'i oedi.	Roedd pob grŵp cerdded wedi rhoi'r gorau i'w gweithgareddau yn Sir Benfro yn ystod y pandemig. Mae cynlluniau ar droed i wneud peth o'r gwaith hwn yn gydnaws â'r cynllun Cerdded er Lles Gorllewin Cymru.
Ymgysylltu Strategol: Ymgysylltu a chydweithredu â chyrff cyhoeddus eraill ar gynllunio adferiad COVID-19 sy'n ymwneud â gweithgareddau adfer iechyd a Lles Corfforol a Meddyliol.	Cyfnod cyfredol y Cynllun Rheoli (2020 – 2024).	Swyddog Polisi Iechyd a Thwristiaeth	Swyddog Polisi APCAP a Swyddogion Cyfarwyddyd a Darganfod perthnasol eraill APCAP, gan gynnwys Parcmyn. Swyddogion eraill APCC. Staff Iechyd Cyhoeddus Cymru. Swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru.	Ar y gweill	Llwyfan ar-lein (basecamp) wedi'i sefydlu i gynnal yr ymgysylltu â Iechyd Cyhoeddus Cymru ac yn ystod y pandemig ar atebion cymdeithasol a gwyrdd ar gyfer iechyd.
2. Hyrwyddo cyfleoedd iechyd yn y Parc					
Diben: Hyrwyddo buddion a chyfleoedd iechyd a lles gyda'r Parc, yn arbennig cyfleoedd cerdded.					
Canlyniad: Lles corfforol a meddyliol pobl yn cael ei wella drwy gynyddu ymwybyddiaeth a mynediad at gyfleoedd iechyd a lles yn y Parc.					
Gweithredu / Menter	Amserlen	Arweinydd	Adnoddau/Gweithio traws-timoedd	Statws	Gweithgaredd 2020/21
Cyfathrebu: Hyrwyddo teithiau cerdded a chyfleoedd iechyd a lles eraill yn y Parc drwy wefan yr Awdurdod.	Cyfnod cyfredol y Cynllun Rheoli (2020 – 2024).	Swyddog Polisi Iechyd a Thwristiaeth	Swyddog Polisi APCAP, Swyddog Dewch i Gerdded, Tîm Darganfod, Swyddogion Mynediad APCAP, Tîm Cyfathrebu APCAP, Aelodau'r bartneriaeth Cynlluniau Llesiant Lleol.	Ar y gweill	Gwefan newydd yn dangos yr holl deithiau cerdded blaenorol. Cyfleoedd i ddiweddarau a mapio'n ddigidol rhai o'r Teithiau Cerdded i Bawb a gynhaliwyd gan y Swyddog Dewch i Gerdded yn ystod 2020 a 2021.

					Yn y broses o gyflogi gweithiwr Kickstart i fapio teithiau cerdded yn ddigidol a chreu fideo i hyrwyddo ymhellach y Teithiau Cerdded i Bawb Mai 2021.
Gweithredu / Menter	Amserlen	Arweinydd	Adnoddau/Gweithio traws-timoedd	Statws	Gweithgaredd 2020/21
Gwasanaeth Parhaus: Cyflwyno Teithiau Cerdded dan arweiniad parcmyn yr Awdurdod, staff y canolfannau a gwirfoddolwyr.	Cyfnod cyfredol y Cynllun Rheoli (2020 – 2024).	Cydlynnydd Gweithgareddau a Digwyddiadau	Adran Darganfod APCAP. Parcmyn. Staff y canolfannau. Cyfarwyddyd - Amser y Swyddog Archaeoleg Gymunedol. Arweinwyr Gweithgareddau Gwirfoddol. Teithiau Cerdded i'r Cyhoedd yn amodol ar y cyfranogwyr yn talu ffi archebu.	Parhaus	Cyflwynwyd 77 o deithiau cerdded ar draws yr Awdurdod yn unol â'r rheoliadau yn 2020/21. Bydd cyfleoedd i grwpiau bach o 15 (ynghyd â 2 arweinydd cerdded ac un yn y cefn) ar gael o ganol 2021 ymlaen a chymryd bod y cyfyngiadau yn caniatáu.
Gwasanaeth Parhaus: Cyflwyno menter cadair olwyn traeth a datblygu ymhellach y cyfleoedd sy'n addas ar gyfer pob math o dir i bobl sydd â symudedd cyfyngedig.	Cyfnod cyfredol y Cynllun Rheoli (2020 – 2024).	Swyddog Polisi Iechyd a Thwristiaeth	Swyddog Mynediad y Tîm Cyfarwyddyd. Swyddog Prosiect Dewch i Gerdded. Tîm Rheoli Cefn Gwlad APCAP.	Ar y gweill	Cafodd pob cadair heblaw'r rhai yn Traeth Mawr eu symud o'r lleoliadau ger y traeth yn 2020 gyda'r opsiwn i ddefnyddwyr gasglu cadair o Bencadlys APCAP. Penodwyd cydlynnydd i'r prosiect peilot cadair olwyn traeth am gyfnod o 6 mis yn 2021.
Prosiect: Datblygu cysylltiadau llwybrau troed newydd a chreu teithiau cerdded cylch. Gan gynnwys y camau a wnaed ar gyswllt llwybr troed newydd rhwng Trefdraeth a Nanhyfer, Llwybr Pwll Cornel, a gwella'r llwybr troed cyhoeddus yn Nhrewyddel i ffurfio taith gerdded cylch o Landudoch drwy Drewyddel a Thraeth Poppit.	Cyfnod cyfredol y Cynllun Rheoli (2020 – 2024).	Swyddog Mynediad	Swyddog Mynediad y Tîm Cyfarwyddyd. Swyddog Prosiect Dewch i Gerdded. Tîm Rheoli Cefn Gwlad APCAP.	Ar y gweill	Cytundebau Rheoli wedi'u cwblhau; gwaith paratoi'r tir ar y gweill gyda chontractwyr, gwirfoddolwyr a staff. Dyddiad agor i'w gadarnhau.
Prosiect: Dulliau partneriaeth i gefnogi darparwyr gweithgareddau awyr	2020- 2022	Swyddog Polisi Iechyd a Thwristiaeth	Swyddog Polisi APCAP Gweithredu Gorllewin Cymru dros Iechyd Meddwl	Ar y gweill	Gwnaed cysylltiadau â'r Gynghraiir Awyr Agored i dynnu sylw at y

agored i gysylltu â phresgripsiynu cymdeithasol.			Grŵp Cynllun Hamdden a Fforwm Arfordirol Sir Benfro.		cyfleoedd presgripsiynu cymdeithasol i'r sector.
3. Cerdded â Chymorth a defnyddio'r Parc ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol					
Diben: Darparu cyfleoedd cerdded â chymorth yn y Parc a'r cyffiniau drwy'r cynllun Dewch i Gerdded, a datblygu ein dulliau ymhellach drwy gyflawni'r prosiect tair blynedd Cerdded er Budd Lles Gorllewin Cymru. Mae'r prosiect hwn yn canolbwyntio ar ddatblygu teithiau cerdded er budd iechyd a lles sy'n cychwyn mewn hybiau meddygon teulu, sy'n hyrwyddo cyfleoedd cerdded â chymorth fel math o bresgripsiynu cymdeithasol.					
Canlyniad: Mae rhwystrau yn cael eu dileu i gyfleoedd cerdded i bobl, sy'n cael effaith gadarnhaol ar les corfforol a meddyliol pobl. Mae'r gweithgareddau hyn yn ategu'r agenda ataliol ehangach a hyrwyddir yn Strategaeth Llywodraeth Cymru: Cymru Iachach: Ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a drwy'r Prosiect Cerdded er budd iechyd, datblygir model cynaliadwy y gellir ei ail-gynnal mewn ardaloedd eraill ledled Cymru.					
Gweithredu / Menter	Amserlen	Arweinydd	Adnoddau/Gweithio traws-timoedd	Statws	Gweithgaredd 2020/21
Gwasanaeth Parhaus: Cynllun Dewch i Gerdded	Cyfnod cyfredol y Cynllun Rheoli (2020 – 2024).	Swyddog Dewch i Gerdded	Amser y Swyddog – Swyddog Dewch i Gerdded	Parhaus	16 sesiwn yn ystod 2020/21 yn unol â'r cyfyngiadau. Teithiau cerdded yn ailgychwyn mis Mai 2021.
Gwasanaeth Parhaus: Prosiect Cerdded er Budd Lles Gorllewin Cymru	Cyfnod cyfredol y Cynllun Rheoli (2020 – 2024).	Arweinydd y Tîm Darganfod	Ariennir drwy Gronfa Iach ac Egni'ol Llywodraeth Cymru	Ar y gweill	35 sesiwn yn cael eu cynnig yn Sir Benfro gan sesiynau Cerdded er Budd Lles Gorllewin Cymru yn 2020/21. Cyflwynodd Cerdded er Budd Lles Gorllewin Cymru raglen o hyfforddiant a chymorth ar-lein i wirfoddolwyr arwain teithiau cerdded. 'Gweithgaredd cerdded rhithiol' dan arweiniad partneriaid prosiect yng Ngheredigion.
Prosiect: Profiadau i Bawb a chymryd camau a argymhellir	2020-2022	Swyddog Polisi Iechyd a Thwristiaeth	Tîm Darganfod. Cyfarwyddyd y Parc. Y Tîm Dehongli. Cyfathrebu. Ariennir drwy gyllid tanwariant Llywodraeth Cymru.	Ar y gweill	Llinell amser y prosiect wedi'i newid oherwydd COVID-19. Cwblhawyd arolwg ar-lein yn 2021. Adroddiad terfynol i'w dderbyn gydag argymhellion ganol 2021.

4. Prosiectau a Mentrau Iechyd a Lles

Diben: Hyrwyddo llesiant i bobl o bob oed drwy ddatblygu, cyflwyno a gwerthuso mentrau sy'n canolbwyntio ar wella iechyd meddwl a chorfforol ac sy'n mynd i'r afael ag arwahanrwydd cymdeithasol, yn enwedig drwy wirfoddoli. Bydd hyn yn cynnwys gwerthuso a datblygu prosiect dilynol i'r prosiect gwirfoddoli Llwybrau a gefnogir gan Lywodraeth Cymru. Noder: Gall y gweithgareddau hyn gysylltu â gweithgaredd Gwyrddu ein Cymunedau o dan y Cynllun Gweithredu ar Newid Hinsawdd.

Canlyniad: Bod ystod eang o bobl yn gallu cael cyfle i wirfoddoli a chyfleoedd eraill yn y Parc sy'n helpu i wella eu lles corfforol a meddyliol.

Gweithredu / Menter	Amserlen	Arweinydd	Adnoddau/Gweithio traws-timoedd	Statws	Gweithgaredd 2020/21
Prosiect: Datblygu a chyflawni prosiectau iechyd a lles sy'n gysylltiedig â gwirfoddoli ac ymgysylltu yn yr awyr agored / treftadaeth (e.e. Llwybrau, prosiect gwreiddiau i adferiad).	Cyfnod cyfredol y Cynllun Rheoli (2020 – 2024).	Arweinydd y Tîm Darganfod	Darganfod / Parcmyn. Canolfannau. Archaeoleg Gymunedol. Codi arian.	Ar y gweill	Llwybrau - Effeithiwyd gan COVID-19, gan gynnwys materion trafnidiaeth, er bod sawl sesiwn wedi'u cynnal, gan gynnwys hyfforddiant (gan gynnwys ar-lein), sgiliau cefn gwlad a gwaith cadwraeth, a theithiau cerdded. Cais y Prosiect Gwreiddiau i Adferiad - mewn partneriaeth â MIND, cais Sir Benfro am gyllid Loteri ar gyfer y prosiect a gyflwynwyd fis Ionawr. Archaeoleg - 16 o wirfoddolwyr treftadaeth yn canolbwyntio ar henebion cofrestredig. Nifer o ddigwyddiadau Rhithiol yn 2020-21 gan gynnwys cyflwyno'r Diwrnod Archaeoleg. Hefyd, cyflwynwyd gweithgareddau fel rhan o Warcheidwaid Treftadaeth, Gwarchod Treftadaeth, a hefyd gweithio gyda grwpiau cymunedol.

Gweithredu / Menter	Amserlen	Arweinydd	Adnoddau/Gweithio traws-timoedd	Statws	Gweithgaredd 2020/21
Gwasanaeth Parhaus: Darparu cyfleoedd gwirfoddoli a gweithredu cymdeithasol yn ardal y Parc, er budd lles y bobl a'r Parc.	Cyfnod cyfredol y Cynllun Rheoli (2020 – 2024).	Swyddog Gwirfoddoli.	Swyddog Gwirfoddoli. Swyddog Archaeoleg. Tîm Parcmyr. Amrywiol swyddogion ar draws yr APC wrth i gyfleoedd godi.	Ar y gweill	Cyfyngedig fu'r gwirfoddoli Grŵp yn ystod 2020/21 oherwydd COVID-19. Cynyddodd y cyfleoedd i wirfoddoli unigol. Ymgysylltwyd â swyddogion ar draws yr Awdurdod i glustnodi cyfleoedd amrywiol i wirfoddoli. Ymgysylltwyd â hyb COVE (Gwirfoddoli) i ennyn ymwybyddiaeth o wirfoddoli ar sail natur a chadwraeth. Archaeoleg - 16 o wirfoddolwyr treftadaeth yn canolbwyntio ar henebion cofrestredig. Hefyd, cyflawnwyd gweithgareddau drwy Warcheidwaith Treftadaeth, Gwarchod Treftadaeth a thrwy grwpiau cymunedol.
Prosiect: Cyfleoedd mewn Canolfannau sy'n chwalu arwahanrwydd cymdeithasol mewn cymunedau.	Cyfnod cyfredol y Cynllun Rheoli (2020 – 2024).	Rheolwyr Canolfannau.	Canolfannau. Codi Arian.	Parhaus	Effeithiodd cyfyngiadau COVID-19 ar y canolfannau, gyda gweithgareddau pan oeddent ar agor yn canolbwyntio ar ail-ddechrau gweithgareddau. OYP yn ystod 2020/21: Gorymdaith Rithiol y Ddraig, Tyddewi; VSM yn rhan o'r prosiect dysgu cymheiriaid yr Amgueddfa Hapus gyda Swyddog Dehongli yr APC. Gwnaed cais am gyllid i gefnogi prosiect rhwydweithio cymunedol yn Oriel y Parc, i gefnogi dinasyddiaeth weithgar a materion sy'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd.

					Parhau i ymwneud ag Ysbrydoli Sir Benfro (yn y farchnad awyr agored) pan oedd y cyfyngiadau yn caniatáu. Arddangosfa ar-lein oedd cystadleuaeth flynyddol Cyfeillion Oriel y Parc i blant ysgol.
5. Datblygu a Chyflwyno cyfleoedd a phrosiectau dysgu a chwarae yn yr awyr agored					
Diben: Rhoi cyfle i blant cyn-ysgol, plant ysgol a phobl ifanc elwa o addysg awyr agored a chwarae drwy ein rhaglen addysg, ein prosiect Gwreiddiau a thrwy ddatblygu'r prosiect 1000 diwrnod cyntaf. Yn grymuso ac yn rhoi'r sgiliau i ysgolion ac athrawon gynnwys disgyblion mewn sesiynau addysg awyr agored drwy'r prosiect Ysgolion Awyr Agored Sir Benfro.					
Canlyniad: Mae gan fwy o blant a phobl ifanc fynediad at ddysgu yn yr awyr agored a chyfleoedd i fod yn egniol yn gorfforol, ac yn elwa o hynny. Mae gan athrawon y sgiliau i gyflwyno cyfleoedd dysgu yn yr awyr agored.					
Gweithredu / Menter	Amserlen	Arweinydd	Adnoddau/Gweithio traws-timoedd	Statws	Gweithgaredd 2020/21
Project: Cyflwyno Prosiect Ysgolion Awyr Agored Sir Benfro.	Cyfnod cyfredol y Cynllun Rheoli (2020 – 2024) a thu hwnt.	Arweinydd y Tîm Darganfod	Darganfod. Ariennir gan Lywodraeth Cymru / yr Ymddiriedolaeth - Loteri Cod Post.	Ar y gweill	Darparu deunyddiau addysg awyr agored ar-lein. Amrywiaeth o weminarau Ysgol Awyr Agored a gynhaliwyd ar gyfer athrawon ar themâu dysgu awyr agored.
Project: Prosiect Gwreiddiau (a ariennir gan LNG South Hook drwy Ymddiriedolaeth Elusennol APCAP, sy'n canolbwyntio ar ail-gysylltu ysgolion/ dysgwyr â chynhyrchu bwyd yng Nghlwestwr Aberdaugleddau).	Cyfnod cyfredol y Cynllun Rheoli (2020 – 2024) a thu hwnt.	Arweinydd y Tîm Darganfod	Darganfod – Swyddog Addysg.	Ar y gweill	Addaswyd y prosiect yn ystod 2020/21 oherwydd COVID-19. Roedd sesiynau Hydref 2020 a gynhaliwyd gydag ysgolion yn canolbwyntio ar greu lleoedd tyfu ar dir pob ysgol a hefyd datblygu gwerth lleoedd awyr agored ar gyfer dysgu awyr agored.
Project: Prosiect 1000 diwrnod cyntaf.	Cyfnod cyfredol y Cynllun Rheoli (2020 – 2024).	Arweinydd y Tîm Darganfod	Darganfod. Cyfarwyddyd.	Ar y gweill	Llwyddwyd i gael cyllid llawn ar gyfer y 1,000 Diwrnod Cyntaf gaiff ei lansio yn ystod Gwanwyn 2021.

Gweithredu / Menter	Amserlen	Arweinydd	Adnoddau/Gweithio traws-timoedd	Statws	Gweithgaredd 2020/21
Gwasanaeth Parhaus: Rhaglen Addysg - Cyflwyno cyfleoedd dysgu awyr agored drwy raglen addysg yr Awdurdod.	Cyfnod cyfredol y Cynllun Rheoli (2020 – 2024) a thu hwnt.	Arweinydd y Tîm Darganfod	Amser y Swyddog. Rhai sesiynau ysgol yn amodol ar ffi archebu. Tîm Darganfod. Tîm Parcmyn. Canolfannau. Cyfarwyddyd – Archaeoleg Gymunedol / Pwyth mewn Pryd.	Parhaus	Effeithiwyd ar gyflawni'r rhaglen addysg yn ystod 2020/21 gan COVID-19. Roedd y gweithgareddau a gynigiwyd yn unol â'r rheoliadau, ond roedd nifer o ysgolion wedi canslo. Archaeoleg - Sesiynau Gwarcheidwaid Treftadaeth wedi'u cyflwyno drwy fideos wedi'u recordio ymlaen llaw gyda'r ysgol ym Mhenfro i ennyn diddordeb disgyblion yn eu treftadaeth. Hefyd wedi cyflwyno sesiwn awyr agored.

Adran B: Maes Blaenoriaeth: Tirweddau i Bawb - Cynyddu mynediad a chyfleoedd i bobl gael budd o ymgysylltu â Rhinweddau Arbennig y Parc

Yn cyfrannu at bolisïau'r Cynllun Rheoli a'u meysydd effaith cysylltiedig: L1: Gwarchod a gwella tirweddau a morweddau'r Parc Cenedlaethol; L3: Amddiffyn a gwella seinweddau naturiol; W1: Darparu a hyrwyddo cyfleoedd hamdden awyr agored cynaliadwy i bawb; W2: Darparu a hyrwyddo cyfleoedd dysgu sy'n ysbrydoli yn yr awyr agored a datblygiad personol i bawb; H1: Gwarchod a gwella tirweddau o ddiddordeb hanesyddol penodol, Ardaloedd Cadwraeth, henebion rhestredig, adeiladau rhestredig a'u lleoliadau; H2: Hyrwyddo'r Gymraeg a thafodieithoedd lleol, a dathlu diwylliant a chreadigrwydd sy'n gysylltiedig â'r dirwedd; N1: Cyfrannu at economi carbon isel i Gymru ac addasu i newid yn yr hinsawdd. Mae'r gweithgareddau hefyd yn cefnogi *Ymateb* yr Awdurdod i'r Cynllun Gweithredu *Brys ar Newid Hinsawdd*, yn enwedig gweithredu ar drafnidiaeth.

Yn cyfrannu at Amcanion Llesiant canlynol yr Awdurdod: Cydraddoldeb, Iechyd a Lles, Cymunedau.

Yn cyfrannu at gyflawni nod tymor hir Cynllun Cydraddoldeb yr Awdurdod o greu Parc sy'n Dirwedd i Bawb drwy gefnogi cyflawni Amcan Cydraddoldeb 1: Erbyn 2024, bydd ein gwaith o hyrwyddo'r Parc Cenedlaethol fel cyrchfan yn cynrychioli cynulleidfaoedd mwy amrywiol, a byddwn wedi dileu rhai rhwystrau i gael mynediad i'r Parc ar gyfer grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol neu'r rhai sy'n wynebu rhwystrau penodol. Bydd hyn yn arwain at ystod mwy amrywiol o bobl yn cael budd o'i Rinweddau Arbennig ac yn cael profiad o'r rhinweddau hynny. Amcan Cydraddoldeb 2: Erbyn 2024, byddwn yn sicrhau bod atebion a ddatblygwyd i fynd i'r afael â'r cyfleoedd a'r heriau a glustnodwyd yng Nghynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol yn gynhwysol ac yn ystyried yr Asesiad o Effaith y Cynllun ar Gydraddoldeb.

Yn cyfrannu at gyflawni nod tymor hir Cynllun Cydraddoldeb yr Awdurdod bod ein gwasanaethau yn hygyrch ac yn gynhwysol yn ddiofyn a bod ein prosiectau yn cyfrannu at fynd i'r afael ag anghydraddoldeb drwy gefnogi cyflawni Amcan Cydraddoldeb 3: Erbyn 2024, bydd gennym staff a gwirfoddolwyr wedi'u hyfforddi, a mecanweithiau yn eu lle, i sicrhau ein bod yn dylunio, yn caffael ac yn darparu gwasanaethau hygyrch a chynhwysol. Amcan Cydraddoldeb 4: Erbyn 2024, byddwn wedi datblygu a chyflawni prosiectau a chynlluniau sydd â buddion cadarnhaol i'r rhai hynny sy'n wynebu anghydraddoldebau, yn enwedig plant a theuluoedd ifanc o ardaloedd difreintiedig.

6. Tirweddau i Bawb - Creu profiadau cadarnhaol a gwella mynediad i bawb lle bo hynny'n bosibl

Diben: Hyrwyddo a chefnogi tirweddau i bawb drwy ystod o weithgareddau sy'n chwalu rhwystrau ac yn cynyddu'r cyfleoedd i bobl gael mynediad at Rinweddau Arbennig y Parc Cenedlaethol a chael budd o'r rhinweddau hynny.

Canlyniad: Mae'r Awdurdod wedi dileu rhai rhwystrau i gael mynediad i'r Parc i'r rhai sy'n wynebu rhwystrau penodol gan arwain at ystod mwy amrywiol o bobl yn cael mynediad, yn cael budd ac yn cael profiad o Rinweddau Arbennig y Parc. Wrth wneud hynny, yn creu Parc sy'n dirwedd i bawb.					
Gweithredu / Menter	Amserlen	Arweinydd	Adnoddau/Gweithio traws-timoedd	Statws	Gweithgaredd 2020/21
Cyfathrebu: Clustnodi cyfleoedd i weithio ar y cyd i sicrhau bod y Parc Cenedlaethol yn cael ei hyrwyddo fel cyrchfan gan gyrraedd a chynrychioli cynulleidfaoedd mwy amrywiol. Bod deunydd hyrwyddo a dehongli yn ystyried bod yn hygyrch ac yn gynhwysol fel arfer safonol (dolen i Profiad i Bawb).	Cyfnod cyfredol y Cynllun Rheoli (2020 – 2024).	Pennaeth Cyfathrebu	Cyfathrebu. Dehongli. Canolfannau.	Parhaus	Bydd y prosiect Profiad i Bawb yn cynnig argymhellion ar gyfer gwaith mewnol a gyda phartneriaid i'r dyfodol.
Prosiect: Prosiect Ymchwil Profiad i Bawb a gweithredu'r argymhellion o'r prosiect.	2020 -2022	Swyddog Polisi Iechyd a Thwristiaeth	Arweinydd y Tîm Darganfod. Tîm Dehongli. Tîm Cyfathrebu.	Ar y gweill	Llinell amser y prosiect wedi'i newid oherwydd COVID-19. Cwblhawyd arolwg ar-lein yn 2021. Adroddiad terfynol i'w dderbyn gydag argymhellion ganol 2021.
Prosiect: Datblygu ymhellach y Cynllun Cadair Olwyn Traeth a chyfleoedd mynediad ar dir garw – h.y. llwybrau Treiciau Mynydd.	Cyfnod cyfredol y Cynllun Rheoli (2020 – 2024).	Swyddog Polisi Iechyd a Thwristiaeth	Swyddog Mynediad Cadair Olwyn Traeth ac Awyr Agored. Tîm Cyfarwyddyd a'r Tîm Darganfod.	Parhaus	Prynwyd 3 Treic Mynydd yn 2020 a'u gyrru mewn gwahanol leoliadau yn y PC. Clwb Symudedd i gael ei dreialu yn ystod haf 2021 yng Nghoedwig Canaston.
Cyfathrebu: Hyrwyddo teithiau cerdded i bawb, teithiau cadair olwyn a chyfleoedd hygyrch eraill yn y Parc drwy wefan yr Awdurdod.	Cyfnod cyfredol y Cynllun Rheoli (2020 – 2024).	Pennaeth Cyfathrebu	Cyfathrebu. Swyddog Mynediad. Swyddog Mynediad Cadair Olwyn Traeth ac Awyr Agored.		Mae system yn ei lle i gofnodi nifer y teithiau cerdded map Cadair Olwyn a lawr-lwythir bob blwyddyn.
Prosiectau: Gwelliannau Mynediad Corfforol, gan gynnwys - Santes Non (Tyddewi), Creu taith gylchol mwy hygyrch ger y gors yn Freshwater East, Mynediad i Gastell Caeriw.	Cyfnod cyfredol y Cynllun Rheoli (2020 – 2024).	Rheolwr Prosiectau Adeiladu. Tîm Rheoli Cefn Gwlad a	Cyfarwyddyd – Mynediad. Rheoli Cefn Gwlad. Eiddo. Codi Arian.	Prosiectau cyfredol ar wahanol gamau - gweithgaredd	Gwelliannau Mynediad i Ffynnon Santes Non i gychwyn ar y safle Mai 2021.

		chontractwyr sy'n gwneud y gwaith hwn.		yn cario ymlaen i 2021/22 oherwydd effaith COVID-19 ar gyflawni.	Taith gylchol hygyrch ger y gors yn Freshwater East, i'w chwblhau hydref 2021. Mynediad i Gastell Caeriw: y gwaith wedi'i ohirio ond bwriadu dechrau'r gwaith yn yr hydref / gaeaf 2021/2022. Datblygu gwell manyleb a threfn arolygu ar gyfer llwybrau mynediad hawdd.
Gweithredu / Menter	Amserlen	Arweinydd	Adnoddau/Gweithio traws-timoedd	Statws	Gweithgaredd 2020/21
Prosiect: Datblygu rhestr wirio prosiect y gellir ei rhannu â phartneriaid i sicrhau bod prosiectau a ddatblygwyd i fynd i'r afael ag effeithiau Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol yn gynhwysol.	Erbyn diwedd 2021	Swyddog Data a Pherfformiad.	Cyfarwyddyd y Parc. Darganfod / Parcmynd. Codi Arian.	Parhaus. Ar y gweill. Heb ddechrau. Wedi'i gwblhau.	Bydd yr adroddiad Profiad i Bawb yn bwydo gwybodaeth i'r broses, ac yn sail i greu'r rhestr wirio.
Ffyrdd o Weithio: Cefnogi'r canolfannau i ymgysylltu, ymuno a datblygu mentrau sy'n cefnogi mynediad ehangach i'r atyniadau, treftadaeth a'r cyfleoedd celfyddydol.	Cyfnod cyfredol y Cynllun Rheoli (2020 – 2024).	Amherthnasol	Canolfannau. Dehongli. Codi Arian.	Wedi'i ddileu o'r Cynllun Corfforaethol 2021/22 wrth i'r Awdurdod ail-alinio gwaith mewn ymateb i COVID-19.	Rhaid oedd cau canolfannau a rhoi'r staff ar ffyrlo yn ystod rhan o 2020/21. Y gweithgaredd yn 2021/22 yn debygol o ganolbwyntio ar ailagor gweithgareddau. Bydd y gwaith ar ddatblygu cyfleoedd cynhwysol yn parhau, ac yn 2021/22 mae hyn yn debygol o ganolbwyntio ar ein cynnig digidol.
Strategol: Gweithio gydag eraill i ddatblygu prosiectau a chynlluniau lleol sy'n helpu i fynd i'r afael â heriau trafnidiaeth yn y Parc, gan ystyried y rhwystrau y gallai gwahanol grwpiau eu	Cyfnod cyfredol y Cynllun Rheoli (2020 – 2024).	Swyddog Polisi Iechyd a Thwristiaeth	Cyfarwyddyd. Dehongli. Cyfathrebu.	Parhaus. Ar y gweill. Heb ddechrau.	Mae gwaith ar deithiau gweithredol a chynaliadwy ar y gweill ym mis Mai 2021 - gyda'r bwriad o ailwampio'r 'Canllaw Teithwyr Gwyrdd 2016' blaenorol.

hwynebu. (Mae hyn yn cysylltu â chatau gweithredu yn y cynllun gweithredu brys ar newid yn yr hinsawdd).				Wedi'i gwblhau.	
7. Tirweddau i Bawb - Hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a chefnogi mentrau sy'n cynorthwyo'r rhai sy'n profi tlodi plant neu anfantais economaidd-gymdeithasol					
Diben: Cyflawni gwaith cynhwysiant cymdeithasol sy'n chwalu'r rhwystrau i gael mynediad i'r Parc a'i fuddion, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â thlodi gwledig a thlodi plant ac anfantais economaidd-gymdeithasol. Noder: Gall y gweithgareddau hyn gysylltu â'r gweithgaredd 'Gwyrddu ein cymunedau' o dan y Cynllun Gweithredu ar Newid Hinsawdd.					
Canlyniad: Mae'r Awdurdod yn cyflawni gweithgareddau sydd â budd cadarnhaol i'r rhai sy'n wynebu anghydraddoldebau, ac yn defnyddio asedau'r Parc i wireddu hynny. Mae rhwystrau yn cael eu dileu fel bod mwy o bobl yn gallu helpu i ofalu am y Parc a phrofi ei Rinweddau Arbennig.					
Gweithredu / Menter	Amserlen	Arweinydd	Adnoddau/Gweithio traws-timoedd	Statws	Gweithgaredd 2020/21
Datblygu Prosiect : Datblygu a chyflawni o leiaf un prosiect mewn partneriaeth ag eraill sydd â buddion cadarnhaol i'r rhai hynny sy'n wynebu anghydraddoldebau, yn enwedig plant a theuluoedd ifanc o ardaloedd difreintiedig.	2020-2022	Arweinydd y Tîm Darganfod	Swyddogion Tîm Darganfod. Cyfathrebu. Swyddog Polisi APCAP, Dehongli. Canolfannau. Partneriaeth â sefydliadau eraill.	Parhaus. Ar y gweill. Heb ddechrau. Wedi'i gwblhau.	Sicrhawyd cyllid ar gyfer y prosiect 1000 Diwrnod Cyntaf i ddechrau yn 2021/22.
Gwasanaeth Parhaus: Ymgysylltu â phartneriaid i ddarparu gweithgareddau cynhwysiant cymdeithasol drwy ddefnyddio asedau'r Parc i wella cyfleoedd mynediad a chyfranogi yn y Parc a helpu i chwalu arwahanrwydd cymdeithasol i rai grwpiau. Gan gynnwys ymgysylltu â Thîm CSP o amgylch y teulu, gweithiau yn y dyfodol, grwpiau cymunedol a chymorth (e.e. MIND, Gofal Dewi yn y Gymuned, Canolfan Ieuencid Point), a darparu Gwasanaeth Parcmyn Ieuencid. Bydd y gweithgareddau yn cynnwys cefnogi pobl i gyflawni ac i ymgysylltu â Gwobr John Muir.	Cyfnod cyfredol y Cynllun Rheoli (2020 – 2024).	Arweinydd y Tîm Darganfod	Darganfod. Parcmyn. Canolfannau.	Parhaus	Cais Gwreiddiau i Adferiad (mewn partneriaeth â MIND) wedi'i gyflwyno i'r Loteri. Sesiynau Rhithiol y Pwyllgor Ieuencid. Sesiynau ymgysylltu yn yr awyr agored ac ar-lein y parcmyn Ieuencid yn cael eu cynnal. Llwybrau 2 wedi cyflwyno teithiau cerdded byr i gyfranogwyr o oriel VC.

					Sgwrs a chwis gyda Gofal Solfach. Taith gerdded gan Dewch i Gerdded i 12 o gyfranogwyr MIND. Sesiwn Hyfforddi Arweinwyr Teithiau Cerdded. Cydweithio ag Awdurdodau Parciau y DU a Llywodraeth y DU. Cynllun Kickstarter ar gyfer 2021/22.
Gweithredu / Menter	Amserlen	Arweinydd	Adnoddau/Gweithio traws-timoedd	Statws	Gweithgaredd 2020/21
Gwasanaeth Parhaus: Darparu cyfleoedd gweithredu cymdeithasol a dysgu awyr agored a threftadaeth i ddisgyblion a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (gan gynnwys gweithio gyda myfyrwyr Coleg Plas Dwbwl).	Cyfnod cyfredol y Cynllun Rheoli (2020 – 2024).	Swyddog Archaeoleg.	Darganfod. Parcmyn. Canolfannau. Archaeoleg Gymunedol.	Wedi'i oedi	Ni wnaed unrhyw gynnydd yn ystod 2020-21 oherwydd COVID-19.
Strategol: Cwblhau asesiadau effaith integredig ar ein penderfyniadau strategol a sicrhau bod gan staff ac Aelodau y sgiliau sydd eu hangen i roi sylw dyledus i'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol. / Cynrychioli Parciau Cenedlaethol Cymru ar Grŵp Canllawiau Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol Llywodraeth Cymru.	2020 - 2022	Swyddog Data a Pherfformiad	Amser y Swyddog - Swyddog Perfformiad Data a Chydymffurfiaeth.	Parhaus	Aelod o grŵp canllawiau LIC yn bwydo gwybodaeth i ddeunydd canllaw ac ymgysylltu / hyfforddi. Dull asesu integredig wedi'i dreialu ar Gynllun Corfforaethol ac Adnoddau 2021/22.
Partneriaeth Strategol: Ymgysylltu â Pharciau Cenedlaethol eraill Cymru ar Gynhwysiant Cymdeithasol a datblygu datganiad sefyllfa ar y cyd â Pharciau Cenedlaethol eraill Cymru ar gynhwysiant cymdeithasol a thlodi plant.	Cyfnod cyfredol y Cynllun Rheoli (2020 – 2024).	Swyddog Polisi Iechyd a Thwristiaeth	Amser y Swyddog – Cyfarwyddyd, Darganfod, Swyddog Perfformiad Data a Chydymffurfiaeth.	Ar y gweill	Y Papur Tirweddau i Bawb yn cael ei adolygu i amlygu'r newidiadau a'r heriau a ddaeth yn sgîl y pandemig Mai 2021.

